YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1897. [RHIF 117

YR EGLWYS GRISTIONOGOL: EI HYSTYR A'I DECHREUAD.

GAN Y DIWEDDAR

BARCH. W. THOMAS, M.A. (GWILYM MARLES).

ANGHOFIED y darllenydd, am ychydig, raniadau a sectau diddiwedd y byd Cristionogol—gadawer iddynt i gilio i'r tucefn, modd y gallom yn well dd'od o hyd i'r ystyr neu'r *idea* ag sy'n gorwedd o dan wraidd yr holl raniadau, a chael allan gnewullyn bodolaeth y gymdeithas hon. Mae'r gair eglwys yn arwyddo cynulleidfa, neu dyrfa o unrhyw natur, ar y cyntaf, nad pa achos neu gymhelliad a fo wedi eu dwyn yn nghyd. Siaredir genym am yr Eglwys Iuddewig, ond nid oedd yr Eglwys Iuddewig yn cyfateb i'n meddylddrych presenol ni am eglwys. Yr oedd yr holl genedl hono, trwy ymrwymiad difrifol, trwy ufudd-dod i luaws o ordeiniadau a defodau, ac yn neillduol trwy gydnabyddiaeth bendant o Dduw yn Frenin a Deddfroddwr iddi, yn Eglwys iddo. Eithr nid oedd unrhyw berson o gylch yr hwn y canolai bryd a serch yr Eglwys Iuddewig. Negesydd neu gyfryngwr rhwng Duw a'r genedl oedd Moses. Ni chawn yr edrychid i fyny at Moses, er cymaint y parch ato, gyda hoffder ac ymlyniad personol. Ni chawn y proffwydi, neu ddysgawdwyr y genedl, yn anog eu cydwladwyr i ymddibynu ar Moses, neu ei ddilyn ef fel esiampl, ond yn hytrach i gadw y trefniadau y buasai ef yn foddion yn llaw Rhagluniaeth i'w gosod mewn meddiant ohonynt. Mae y cyfrif sydd genym am Moses yn ei osod allan fel yn eithriad i ddynion ereill; mae llawer o bethau anarferol a gwyrthiol wedi eu cydwau â'i hanes, pethau na chyd-

weddant â'r syniadau sydd genym ni yn awr am garitor hanesyddol. Mor bell ag y mae'r cyfrif am Moses yn ei ddangos felly, —fel yn sefyll allan ar wahan oddiwrth ereill, ac yn meddu ar garitor eithriadol i'r hiliogaeth, mae yn anghymhwys i fod yn sylfaenydd i eglwys weledig a hanesyddol. Mor bell ag yr arddangosir ef fel yn sefyll ar esgynlawr uwch nag ereill, mae yn anmhosibl, o leiaf yn afresymol, dysgwyl i ereill fod yn debyg iddo ef: yn ganlynwyr a dysgyblion iddo. Ar yr olwg gyntaf, ymddengys hyn yn gymhwysiadol at Iesu Grist hefyd. Ond y mae hyn o wahaniaeth: tra yr hona y dosbarth lluosocaf o Gristionogion am yr Iesu Ei fod ar un llaw yn Dduw, daliant ar y llaw arall Ei fod yn ddyn, ac yn gynllun i bawb: ac er mwyn enw a symia'r ddwy ochr i fyny, galwant ef yn Dduw-ddyn: gair, a'i arfer yn ffigurol, âg ystyr uchel iddo, ond os defnyddir yn llythyrenol sy'n groes-ddywediad. Yn awr, o gylch yr Iesu fel brawd i ni, fel cnawd o'n cnawd ac asgwrn o'n hasgwrn ni—fel un o'r hiliogaeth, wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninau—o gylch dynoliaeth uchel a phur yr Iesu, o'i gylch Ef fel yr esiampl a'r cynllun mawr, y mae yr Eglwys Gristionogol wedi ymffurfio. Efe yw y Ffordd, y Gwirionedd, a'r Bywyd. Cymerir yn ganiataol Ei fod i gael Ei efelychu: Ei fod wedi rhoddi i ni esiampl fel y dilynem Ei ôl Ef. Mae anghysondeb, debygem ni, yn yr olwg gyffredin; oblegid y mae llawer o bethau allan o'r ffordd gyffredin yn cael eu tystiolaethu am dano: ei enedigaeth, ei alluoedd gwyrthiol, a'i adgyfodiad: ffeithiau a'i dodant yntau hefyd y tuhwnt i obaith fod modd i'w efelychu yn mhob peth. Eto, ar waethaf hyn oll—a dylem yn fynych ddiolch am anghysondeb dynion fod yr ochr oleuaf a chywiraf yn troi i fyny, ac yn cael ei dal o flaen golwg y byd—mae yr Iesu yn ymddangos mor wir ddynol yn Ei gyfeillion, Ei ofidiau, Ei gariad, Ei weddïau, Ei demtasiynau, Ei fuddugoliaeth, a'i angeu, a'r apostolion yn Ei ddal allan mor fynych fel y Cynllun Mawr, fel mai naturiol iawn oedd iddo trwy y cwbl gael Ei gydnabod fel Cynrychiolydd a Siampl yr hiliogaeth. Ac felly y mae hi wedi bod. O'i gylch Ef yn rhinwedd ei ddynoliaeth ddihalog, y ddelw o ddwyfoldeb a ddysgleiriai yn Ei fywyd, y mae Ei Eglwys wedi ymgrynhoi. Gellid, gan hyny, ddyweyd mai dyna yw Eglwys Gristionogol: corff o ddynion yn cael eu cysylltu a'u huno gan barch i'r Iesu, yn ymgynull gyda'r dyben o addoli'r Tad, a chyfranogi o addysg a chyfarwyddyd a chysur crefyddol. Mae hyna yn wir, ni a gredwn, am yr Eglwys Gristionogol yn ei gwahanol gangenau; yn rheswm o'i bodolaeth trwy ei holl amrywiaethau.

Ceisiais gan y darllenydd am ychydig i fwrw o'r golwg raniadau y byd Cristionogol. Ar ryw gyfrif y mae hyn yn anhawdd; maent mor lluosog; yn cwrdd â ni ar ben pob heol; yn ymwthio i hynodrwydd ar bob tro; yn dynoethi eu gwendidau yn hytrach na'u cryfder a gwreiddyn eu cadernid a'u hundeb yn fynych, Eto, yn y gwaelod obry, mae yn rhaid fod yr Eglwys Gristionogol yn un mewn rhyw deimlad ag sydd ddyfned a lleted a'r hiliog-.

aeth. A dyna yw y teimlad hwnw—un o ymddibyniaeth ar ryw allu uwch. Nis gall neb ohonom yn un wlad ymryddhau oddiwrth hyn. Mae rhyw sidanaidd gadwynau, rhyw gylymau cedyrn yn ein cysylltu â gorsedd yr Anfeidrol. Mor sicr a diatal ag yw deddf yr atdyniad, yr hon a geidw y ddaear i droi yn ei lle o gylch yr haul, felly y mae deddf fawr, nid llai, ond mwy sylweddol, yn ein cysylltu yn ysbrydol â Chanolbwynt mawr ein bywyd. Teflir ni oll yn ol yn y pen draw, ac yn gryf iawn ar brydiau, ar y syniad hwn. Ymddangosiadau yw yr oll a welwn; mae rhyw Ysbryd Mawr, rhyw allu hollbresenol, rhyw feddwl holldreiddiol, rhyw sancteiddrwydd hollwybodol yn gylch oddeutu ein bywyd. Efe ydyw yn hytrach yr awyr yn mha un yr anadlwn ni, presenoldeb yr Hwn, tra yn ddirgelwch, sydd ar yr un pryd yn swyn a nerth penaf ein bywyd. Trown ni yn ol ac yn mlaen fel y mynwn, gwnawn fil o lwybrau i'n traed; ymgangened ein diwydrwydd gymaint fyth ag y medro—yn ngafael â gwreiddiau ein calonau y mae syniad sydd â'i dardd o froydd ysbrydol fyd, a'i gyfeiriad at ffynonellau ei nerth dechreuol. Dros y byd yn grwn y mae hi felly. Nid wedi dechreu yn ddiweddar y mae hyn. Fe'i ganed gyda'r hiliogaeth. Pan gydganodd ser y boreu, ac y gorfoleddodd meibion Duw—plant henaf y crëad—pan aned calon ddynol gyntaf, gyda'i serch at dad a mam, fe ddaeth serch at Fôd uwch, ymgais am uwch bywyd, pelydr o oleuni nad oedd ei ffynonell mewn na seren na phlaned yn yr holl greadigaeth—pelydr o fynwes Duwdod Ei Hun. Mae y teimlad hwn o ymbwys ac ymddibyniaeth ar Fôd uwch wrth wraidd y cwbl. Mae hwn yn gyffredin i'r hiliogaeth; wedi bod yn hedyn o'r hwn y mae llu dirfawr o grefyddau gwahanol wedi codi. Mae hwn hefyd wrth sylfaen ein Cristionogaeth, yn gorwedd yn isel obry—pellach i lawr na merthyron, apostolion, ydyw, na Iesu Grist Ei Hun.

Eithr paham y canolwn ni o gylch iddo ef, yr Iesu? Mae rhesymau digonol am hyn hefyd. Nid yw y cnydau mawrion ar feusydd hanes yn codi ar diroedd llymion, ar greigleoedd, a mynydd-diroedd diffaith: mae yna hen *soil* fras ag sydd hanfodol iddynt. Achosion mawrion yn unig roddant dardd i effeithiau pell a pharhaus. Os nad oedd yr Iesu yn Dduw, mae y byd wedi adnabod llais Duw a gallu Duw ynddo. Mae y byd yn gorfod addef ar liniau gostyngedig, a chyda llygaid gwŷl a gwlyb, "Yn wir, Mab Duw ydoedd Hwn." Gallwn ddyweyd, er amled temlau y ddaear yn flaenorol, er lluosoced y duwiau a'r gwroniaid a gydnabyddid, fod yna deml fawreddog yn wag: fod yna dlodi ac amddifadrwydd yn dyheu am y mawredd Dwyfol oedd ynddo Ef. Yr oedd yna fwlch; galwad am un mwy *dynol* na hwynt oll: mwy Dwyfol ar yr un pryd. Pan ddaeth, Ei genedl Ei Hun nis adnabu Ef. Ond nid ydyw byd o ddynion mor ddall: nid yw y natur ddynol mor agored i gamsyniad. Mae Ei le iddo. Mae y gwledydd, oddiar hyny, wedi cadw Ei enw mewn coffadwriaeth fendigedig; wedi ffurfio cymdeithasau—eglwysi; wedi

codi temlau; wedi ceisio gwneyd i fyny am yr anfri a ddangoswyd iddo gynt, oblegid er i oes, er i wlad, gamgymeryd a diarddel Cymwynaswr nefol, bydd rhywrai i'w cael yn gweithredu ar air yr apostol: "Nac anghofiwch letygarwch, canys wrth hyny y lletyodd rhai angylion yn ddiarwybod."

Mae yn nodedig yn Ei hanes Ef mor lleied o ymwybodaeth oedd ynddo Ei fod yn gwneyd dim ag oedd yn fawr: yn parotoi y ffordd i ddim ag oedd yn rhyfeddol. Ar brydiau tanbeidiai rhyw lewyrch proffwydol ar ei feddwl. Dywedai: "Daw llawer, o'r dwyrain ac o'r gorllewin, o'r gogledd ac o'r dehau, ac eisteddant gydag Abraham, Isaac, a Jacob yn nheyrnas Fy Nhad." Eithr yn y cyffredin, llefaru yn ddinod a diuchelgais a wnai, gan adael y canlyniadau i'r Hwn a'i danfonodd. Ni chawn Ef yn gwneyd unrhyw ymdrech i sefydlu eglwys, y fath ag a ymffurfiodd yn y byd yn fuan ar ol Ei ymadawiad â'r byd. Dim ymgais i wneyd enw iddo Ei hun. Ond yr oedd yn byw i Dduw yr holl amser; Ei enaid mewn cymundeb â sylweddau y byd ysbrydol; Ei serch ar drysorau anllygredig y nefoedd. Ni chawn Ef yn rhoi cyfarwyddiadau yn mherthynas i eglwys weledig. Ei swydd a'i waith Ef oedd byw; byw yn awyr pethau nefol; byw i yru câs ar ddefodau gweigion niwl annoethineb dyn. Mwy nag y gofala'r blodau fod neb ger llaw i yfed y peraroglau, nis gofalai yntau am fri a chymeradwyaeth y lluaws. Yr oedd y bywyd ynddo Ei Hun yn felus; rhinwedd, sancteiddrwydd yn wobrwy ynddynt eu hunain—y naturioldeb a flodeuai yn ei gymeriad yn flagur tecaf y nefoedd; y mwyaf swynol i oesau dilynol.

NODAU PARCH

I goffadwriaeth y diweddar John Bowen, Alltwen, Pontardawe, yr hwn oedd yn aelod ffyddlon iawn gyda'r Undodiaid yn y Graig a Gellionen, ac yn ddyn gorhynod am brydlondeb a ffyddlondeb.

MAE milwyr dewrion Mab y Dyn o hyd yn cwympo ar eu taith;
Pob un yn gorfod gadael gwaith, a myned ar ei gost ei hun.

Dych'mygaf wel'd angyles wen yn mhalas Duw yn golchi traed John Bowen, er ei barch dibaid, gan sychu'i draed â gwallt ei phen.

Ei fywyd cu oedd fwyd i ni i fod yn nes i dŷ ein Tad,
Yn deilwng o'r Efengyl fad, a bywyd rhad yr Iesu cu.

Ymorfoleddai'n y ffordd gul—yr Ysgol Sul oedd iddo'n chwaer;
Clustfeiniai ar y gwersi claer a sieryd ynddi ar y Sul.

Rhy dda oedd hwn i law o gnawd ei gwrdd,—rhy brydferth lawer iawn;
Ac fel efe, O! Dduw, na bawn, yn byw—yn byw ar borfa ffawd.

Ataliwyd gweithio drwy'r holl nef ar ddydd ei gladdedigaeth ef;
A daeth angylion Duw i lawr i wneyd yr angladd yn un mawr.

Ac yn eu plith daeth Iesu Grist, i estyn rhad gysuron hedd
I'r plant a'r weddw wrth y bedd, dan bwysau trwm eu galar trist.

Byw'n dda oedd nod ei fywyd glan, byw ar wahan i bethau'r byd;
Byw'n dduwiol ar y daith o hyd, a byw â'i fryd ar wlad y gân.

DEWI BANOS.

YMADRODDION NEWYDD CRIST.

DYW yr enw Oxyrhyncus ddim yn debyg o ddeffroi unrhyw adgof yn meddwl neb, ac y mae yn bosibl na chlywodd nemor i neb o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD yr enw erioed o'r blaen. Yn wir, ni wyddwn i fy hunan ddim o hanes y gair hyd o fewn ychydig wythnosau yn ol, pan y cymerodd amgylchiad le ag sydd wedi peri i'r enw fod ar wefus pob un sy'n arfer astudio'r Beibl. Ond er ein hanwybodaeth ni o hanes y gair, yr oedd Oxyrhyncus unwaith yn brifddinas, yn flodeuog iawn o dan y Rhufeiniaid, ac yn un o brif ganolfanau Cristionogaeth foreu yn yr Aifft. Saif y lle ar ymyl anialwch Libya, chwech ugain milldir o'r tu deheuol i Cairo; neu, yn hytrach, fe safai y lle yno, oblegid yn awr 'does yno ddim i nodi y fan ond rhes o dwmpathau isel. Mewn carn o ysbwriel, o dan gruglwyth o lestri pridd perthynol i'r cyfnod Rhufeinig, ac hanes foreu Arabia, fe ddaeth dau ysgolor o Brifathrofa Rhydychain, Mr. Bernard P. Grenfell a Mr. Arthur S. Hunt, y rhai a aethent allan o dan nawdd yr *Egypt Exploration Fund*, ar draws cyflawnder mawr o'r hyn a elwir *papyri*, neu y defnydd ar yr hwn yr arferid ysgrifenu yn yr oesoedd boreu. Yr oedd y *papyri* hyn, gan mwyaf, yn y Groeg, o'r ganrif gyntaf yn mlaen hyd at y bedwaredd ganrif o'r cyfnod Cristionogol, ac yn ymdrin â phob math o gwestiwn bron. Yn mhlith y bwndel hyn, yr oedd un ddalen o

papyrus, yn cynwys dim ond ugain llinell, ar bob tu i'r ddalen, o lythyrenau mawrion Groeg—*Greek capital letters*—bron wedi eu blotio allan yn llwyr—43 llinell i gyd. Mae y ddalen hon o ddyddordeb tuhwnt i bob desgrifiad, oblegid cynwysa ddim llai na saith o ymadroddion ein Harglwydd ag ydynt yn fwy neu lai cyflawn—ymadroddion sydd yn cael eu priodoli iddo gan ysgrifenydd boreu iawn.

Hyd yn hyn, y cofnodion boreuaf am yr Efengyl ag sydd gyda ni ar glawr, nid ydynt yn myned yn ol yn mhellach na'r bedwaredd ganrif. A'r fwyaf enwog o'r rhai hyn yw llawysgrif adnabyddus Sinai—*the Sinaitic Codex*—yr hwn a ddarganfyddwyd o dan amgylchiadau rhamantus gan y German Professor, Tischendorf, mewn mynachdy ar fynydd Sinai yn y flwyddyn 1844, ac yn y flwyddyn 1859. Yr oedd y llawysgrif y cafwyd gafael ynddi gan Tischendorf yn cynwys y cyfieithiad Groeg o'r Hen Destament a'r Testament Newydd, a defnyddiwyd hi ganddo fel sylfaen y cyfieithiad diwygiedig o'r Testament Newydd; ac mae wedi ymgynddeiriogi o'i chylch yr ymrafaelion hyny ag ydynt bob amser yn codi mewn perthynas i unrhyw ddarganfyddiad ar y Beibl. Ond os yw darganfyddwyr y *papyrus* newydd hwn yn iawn yn yr hyn maent yn gredu, mae gyda ni gofnodiad henach na dim y gwyddis am dano erioed o'r blaen. Oddiwrth lawer iawn o dystiolaeth ag sydd yn rhy ddyrys i mi wneyd fawr ohoni yn bresenol, mae y ddau ysgolor yn casglu fod y ddalen yma wedi ei hysgrifenu o gylch y flwyddyn 200 o oedran Crist. Nid y dyddiad yw yr unig beth, o lawer, sydd yn hawlio i'r ddalen hon ei phwysigrwydd mawr. Oddiwrth ei chynwysiad, er mor fyr yw ef, ymddengys yn eglur mai darn yw hi o un o'r casgliadau o ymadroddion ein Harglwydd ag y dechreuodd y dysgyblion eu hysgrifenu, neu eu cyfleu i ryw fath o draddodiad, pan y gwelwyd nad oedd dyfodiad Teyrnas Nefoedd ddim i'w ddeall yn ei ystyr lythyrenol, ac nad oedd, o ganlyniad, ddim mor agos ag oeddynt hwy wedi gredu ar y dechreu. Fe ddeil ysgolheigion fod dwy o'r efengylau, fel y maent gyda ni yn awr, wedi eu sylfaenu ar y fath gasgliad; ac yn wir, fe wnai person heb fod yn ysgolhaig yn naturiol gasglu mai ymdrechion cyntaf cyfeillion a chanlynwyr yr Iesu i gadw yn fyw yr adgofion am dano fyddai ysgrifenu i lawr bobpeth a allent gofio iddo Ef lefaru. A chaniatau hyn, a chymeryd yn ganiataol hefyd fod y ddau ysgolor o Rydychain yn iawn yn eu tybiaeth, gallwn deimlo yn sicr na allesid byth gloddio allan o ymguddfeydd y gorphenol pell unrhyw ysgrif a fyddai o fwy o ddyddordeb i'r byd gwareiddiedig na rhan o'r casgliad hwn ag wyf wedi cyfeirio ato yn barod.

Fel y dywedais yn barod, mae yr ysgrif yn cynwys cyfres o ddywediadau'r Iesu, pob ymadrodd yn dechreu â'r geiriau, "Iesu a ddywedodd," oddieithr y dywediad cyntaf, a chredir fod dechreu y dywediad hwnw ar ddalen arall, yr hon sydd ar goll. Mae wyth o'r dywediadau hyn ar y *papyrus*, ond mae dau ohonynt wedi eu blotio gymaint, fel nad oes nemawr i air yn ddarllen-

adwy; ac hyd yn hyn, nid yw yr ysgolheigion mwyaf cywrain wedi gallu gwneyd un synwyr allan ohonynt. Y chwech arall maent wedi bod yn alluog i'w darllen a'u trosglwyddo i ni. Mae y cwestiwn yn codi, Yn mha berthynas mae y chwech ymadrodd hyn yn sefyll gyda golwg ar ddywediadau ein Harglwydd yn yr Efengylau? Er mwyn ateb y cwestiwn hwn, rhaid rhanu yr ymadroddion i ddau ddosbarth, o dri ymadrodd yn mhob dosbarth—tri yn cyfateb i dri ymadrodd hollol gyfarwydd yn yr efengylau, a thri ymadrodd newydd i ni.

Mi geisiaf roddi un neu ddau o'r ymadroddion hyn mewn diwyg Gymreig. Mae yr ail ymadrodd fel hyn:—"Iesu a ddywedodd, Oddieithr i chwi ymprydio i'r byd, ni chewch ar un cyfrif Deyrnas Dduw; ac oddieithr i chwi gadw y Sabbath, ni welwch chwi y Tad." "Jesus saith, Except ye fast to the world, ye shall in no wise find the Kingdom of God; and except ye keep the Sabbath, ye shall not see the Father."

A chymeryd yr ymadrodd yma mewn ystyr ysbrydol, mae y rhan gyntaf ohono yn hollol gydweddol âg ysbryd Crist—yn rhybudd yn erbyn bydolrwydd. Ond beth gawn ni ddyweyd am yr ail ran? Mae cyfatebiaeth y frawddeg gyntaf yn awgrymu ystyr ysbrydol; ond mae y frawddeg, "Cadw y Sabbath," yn y Groeg gwreiddiol yn frawddeg ag oedd yr Iuddewon yn ei harfer am barchu y Sabbath. A yw hi yn debyg y gwnai yr Iesu ei harfer mewn ystyr hollol wahanol, dywedwch, am y purdeb calon ag mae Efe yn ymofyn yn y Gwynfydau fel amod i weled Duw, yn enwedig pan mai y ffaith Ei fod Ef yn tori rheolau y Sabbath Iuddewig oedd prif achos yr elyniaeth a fynwesid tuag ato gan yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid.

Un o'r ymadroddion hyn sydd wedi tynu fwyaf o sylw; ac i mi, ymddengys o ddyddordeb anghyffredin. Mae llawer gair yn eisieu yn yr ymadrodd—wedi blotio allan—ond y gweddill ohono sydd fel hyn:—"Iesu a ddywedodd, Pa le bynag y mae..... ac y mae un.....yn unig, yr wyf Fi gydag ef. Cyfod y gareg, ac yno ti a'm cei; hollt y pren, ac yno yr wyf Fi." "Jesus saith, Wherever there are..... and there is one.....alone, I am with him. Raise the stone, and there thou shalt find Me; cleave the wood, and there am I."

Yr awgrym sydd yn cael ei gynyg yn y rhan flaenaf o'r ymadrodd hwn yw y dylai gael ei ddarllen fel pe yn golygu, lle bynag mae yr anghredinwyr yn ymgyfarfod, a bod yno un ffyddlon yn eu plith, fod yr Iesu gydag ef—brawddeg sydd yn arall-eirio un o ymadroddion mwyaf cynefin yr Efengylau. Ond mae rhan olaf o'r cofnodiad newydd yn hollol newydd, ac ymddengys i osod allan rhyw fath o athrawiaeth am aml-dduwiaeth. Gosodiad arall o'r ymadrodd yw Duw yn natur i'r hwn sydd yn credu ynddo—yn bresenol yn holl brydferthion anian, yn yr awyr a'r môr, y coed a'r creigiau. Mae llawer o ysgrifenu eisoes wedi bod gyda golwg ar beth yw iawn ystyr yr ymadrodd, a digon tebyg y clywir llawer rhagor am dano eto yn y dyfodol buan.

Adran yr Ysgol Sul.

GWERSI AR FYWYD IESU FEL EI COFNODIR YN YR EFENGYL YN OL MARC.

MEDI 5FED, 1897.

GWERS XXXIII.—PARHAD O DDYWEDIADAU IESU.—Marc iv. 21-29 (cymharer Matt. v. 15, x. 26; Luc viii. 16-18, xii. 2: Matt. xiii. 12).

Y TESTYN EURAIDD:—"*Ni ddaw Teyrnas Dduw wrth ddysgwyl.*" —Luc xvii. 20.

MAE y dywediadau, neu y cymhariaethau byrion yma, o eiddo Iesu, yn gosod allan rai o'r egwyddorion mwyaf pwysig a gwerthfawr. Yn yr adnodau hyn, mae yn dangos i'w ddysgyblion fod gan bob un ohonynt yn bersonol waith i'w gyflawni mewn cysylltiad â lledaenu egwyddorion y Deyrnas.

Adnod 21.—*A ddaw canwyll?* Yn ol y Cyf. Diw., "A ddeuir a'r lamp?" Lampau a ddefnyddid yn gyffredin gan yr Iuddewon, ac nid canwyllau. Llestr pridd bychan, hirgrwn, yn yr hwn y llosgid olew yr olewydd, oedd y lamp. *Dan lestr*, sef y llestr coed a geid yn mhob tŷ at fesur grawn, a phob peth bron a brynid ac a werthid. *Dan wely. Mat* wedi ei wneyd o ddail y balmwydden a'i daenu ar y llawr oedd gwely y tlawd; ond mewn llawer o dai, yr oedd mainc isel ar bwys mur yr ystafell, yr hon a wasanaethai fel lle i eistedd neu i ledorwedd yn y dydd, ac ar yr hon y cysgid yn y nos. Y fainc hon yw y gwely y cyfeirir ato yma. Buasai gosod lamp oleuedig dan y llestr mesur, neu dan y gwely, yn gamddefnyddiad o'r cwbl. Nid yn unig ni lewyrchai y goleuni i neb, ond diffoddai hefyd yn lled fuan. *Canwyllbren.* Cyf. Diw., *Lampstand*, sef careg, neu astell fechan, yn ymestyn allan o fur yr ystafell mewn uchder manteisiol, wedi ei gosod yno i'r dyben o ddal y lamp (Geikie). Dysgir yma mai nid peth i'w guddio a'i ddirgelu yw gwirionedd; nid peth i'w gyfyngu i gadwraeth rhyw ddosbarth neillduol ydyw; ond, yn hytrach, mae i fod yn eiddo cyffredinol i bawb fyddo yn ewyllysio ei dderbyn.

22.—*Dim cuddiedig, &c.* Mae yr holl wirionedd i'w gynyg i bawb. Yn eu dirgeledigaethau a thywyllwch eu hathrawiaethau mae cuddiad nerth llawer o grefyddau; ond dysgeidiaeth syml ac eglur ydyw eiddo yr Iesu. Egluro y gwirionedd i bawb yn ddiwahaniaeth oedd Ei amcan.

23.—Ail-adroddiad o'r 9fed adnod. Apêl at y gwrandawyr i graffu ar a gafaelu yn yr hyn a ddysgai iddynt.

24.—*Edrychwch beth a wrandawoch.* Yn ol Luc, "Pa fodd y clywoch." Fel pe dywedai: Mae yn bwysig i chwi i ddeall yn iawn yr hyn wyf yn ei bregethu i chwi, fel y galloch chwithau ei drosglwyddo yn gywir i ereill. *A pha fesur, &c.* I'r graddau y mae dyn yn cyfranu i ereill y mae yn derbyn iddo ei hun ac yn cynyddu. Defnyddir y geiriau mewn cysylltiad arall yn Matt. vii. 2.

25.—Pwy bynag sydd yn gwerthfawrogi yr hyn sydd yn ei feddiant, drwy wneyd iawn ddefnydd ohono, efe a gaiff ragor; ond *yr hwn nid oes ganddo*, neu a adawo i orwedd yn farw yr hyn sydd yn ei feddiant, fel peth diwerth, "yr hyn sydd ganddo a ddygir oddiarno." Canfyddir yr egwyddor hon yn mhob cyfeiriad—yn y byd anianol, meddyliol, a moesol. Mae y gewynau yn cryfhau wrth eu defnyddio; mae arf yn rhydu wrth orwedd yn segur. Mae egwyddorion moesol yn cynyddu wrth eu harfer, ond gwanhant a darfyddant allan os esgeulusir hwynt.

26-29.—Dameg yr had yn tyfu yn ddiarwybod. Marc yn unig sydd yn cofnodi y ddameg brydferth hon. Fel mae yr amaethwr, wedi gwneyd ei ran drwy fwrw yr had i'r ddaear, yn myned yn ddidaro i gysgu y nos a chodi y dydd, gan adael i ddeddf tyfiant i wneyd ei gwaith mewn modd anhysbys iddo ef; felly mae egwyddorion Teyrnas Dduw i fyned rhag eu blaen. Ond i ddyn dderbyn y gwirionedd i dir da y galon, gofala Duw am y cynyddu a'r dwyn ffrwyth.

28.—*Canys y ddaear a ddwg ffrwyth ohoni ei hun.* Dyma y prif ymadrodd yn y ddameg. Dysgir yma fod gallu cynyrchiol yn meddwl dyn pan ddaw i gyffyriad â gwirionedd. *Yn gyntaf yr eginyn, &c.* Mae y geiriau hyn yn milwrio yn erbyn y syniad poblogaidd o weithrediadau disymwth a haner gwyrthiol yn mywyd crefyddol dyn. Mae Teyrnas Dduw i ddadblygu yn raddol, yn ddystaw, a pharhaus, yn ol yr egwyddor fawr ddi-droi-yn-ol a ganfyddir yn y byd anianol a chymdeithasol.

Gofyniadau.

1. Adroddwch y Testyn Euraidd. 2. Beth a olygir wrth y ganwyll? y llestr? y gwely? a'r canwyllbren? 3. Ai peth i'w guddio ynte ei gyhoeddi yw gwirionedd? 4. Pwy sydd i gyhoeddi? 5. Pa ddyledswydd sydd yn cael ei dal allan yn adnod 24? 6. Beth sydd yn cael ei ddwyn oddiar ddyn pan yr esgeulusa wneyd ei ddyledswydd? 7. A gofnodir y ddameg hon gan rywun heblaw Marc? 8. Eglurwch ystyr naturiol y ddameg? 9. Beth yw y prif ymadrodd yn y ddameg? 10. Beth yw y wers a ddysgir ynddi? 11. Pa syniad poblogaidd a dorir i lawr gan y ddameg?

D. E. J

MEDI 12FED, 1897.

GWERS XXXIV. — DAMEG YR HEDYN MWSTARD. — Marc iv. 30-34 (cymharer Matt. xiii. 31, 32; Luc xiii. 18, 19).

Y TESTYN EURAIDD :—"*Ni ddaw Teyrnas Dduw wrth ddysgwyl. Ac ni ddywedant, Wele yma; neu, Wele acw; canys wele, Teyrnas Dduw, o'ch mewn chwi y mae.*"—Luc xvii. 20, 21.

CYNWYSA ein Gwers dri o bethau pwysig, sef, 1. Y dull o ddysgu ddrwy ddamegion (gweler y Gwersi blaenorol). 2. Y gymhariaeth ddefnyddir—yr hedyn mwstard. 3. Y gwirionedd amlygir—Teyrnas Dduw. O'r tri penawd yma, y trydydd yw yr un anhawddaf ei ddeall. Beth feddylir wrth "Deyrnas Dduw" yn y cysylltiad hwn? Onid yw Duw yn teyrnasu yn yr holl fydysawd? Onid Efe sydd yn lliwio edyn y wawr, yn trigo yn eithafoedd y môr, ac yn gwisgo y lili mewn gogoniant? Onid yw Duw yn bresenol yn mhob symudiad o eiddo natur a dyn? Beth feddylir, ynte, wrth gymharu Teyrnas Dduw yn tyfu fel gronyn o had mwstard? Gellir egluro fel hyn. Yr oedd yr Iuddew wedi dychymygu llawer am "Deyrnas Dduw," am deyrnas yn yr hon y byddai Duw yn llywodraethu ar y ddaear. Dysgai y Rabbi nad oedd un weddi yn gyflawn os na chynwysai erfyniad am ddyfodiad "y Deyrnas." Yr oedd Esay wedi proffwydo am dani er's chwe' chan' mlynedd. Cadwai yr athrawon y meddylddrych yn fyw bob amser o flaen y bobl, fel o'r diwedd darfu i ddyhead dwfn gael ei gyneu yn nghalon pob Iuddew am ddyfodiad "Teyrnas Dduw." Credai rhai y byddai i'r Deyrnas yma ddyfod gyda rhwysg a mawredd a thrwst rhyfel pan y delai y Messiah, yr Hwn, ar ol dadymchwelyd nerthoedd Rhufain, a gosod pob gelyn dan Ei draed, a chwyldroai y byd crefyddol a gwleidyddol trwy sefydlu "Teyrnas Dduw." Credai ereill, yn mysg y rhai yn ddiamheu yr oedd Ioan Fedyddiwr, fod yn rhaid i'r cyfnewidiadau crefyddol ddyfod yn gyntaf, ac yna, ar ol i Baganiaeth gael ei diddymu, y byddai i Dduw deyrnasu ar y ddaear. Yr oedd syniad Iesu am y Deyrnas yn fwy aruchel. "Teyrnas Dduw, o'ch mewn chwi y mae," meddai Ef. Yr oedd yn rhaid i hedyn y gwirionedd gael ei hau yn nghalon dyn, yr hwn a dyfai yn raddol nes dyfod yn ddigon eang i'r holl fyd lochesu dan ei gysgod. Efallai fod yr hen syniad Iuddewig o "Deyrnas Dduw" yn llechu yn mynwes Iesu ar droion; ond mae ysbryd Ei addysgiadau yn tystiolaethu fod y Deyrnas y llafuriai Ef drosti yn un ysbrydol. A pha le bynag yr oedd cariad at Dduw a dyn yn preswylio, yno yr oedd Teyrnas Dduw.

Adnod 30.—*Teyrnas Dduw.* Sylwer fod Marc a Luc yn siarad bob amser am "Deyrnas Dduw," ac nid am "Deyrnas Nefoedd."

31.—*Gronyn o had mwstard.* Yr oedd "cyn lleied a hedyn mwstard" yn ddiareb yn mysg yr Iuddewon yn amser Iesu, ac.

yr oedd y llysieuyn mwstard ei hun yn un cyfarwydd i drigolion y wlad, ac felly yn gwneyd y gymhariaeth yn un naturiol er dangos tyfiant Teyrnas Dduw. Mae yr hedyn mwstard yn un bach, ond gormodiaeth yw dyweyd mai efe "sydd leiaf o'r holl hadau sydd ar y ddaear." Mae yna hadau llai eu maintioli i'w cael. *Yn y ddaear.* Darllenir yn Matthew, "Yn ei faes;" ac yn Luc, "Yn ei ardd."

32.—Sylwer nad yw y gyffelybiaeth yn un wreiddiol i Iesu. Yn Daniel iv. 10-12., mae ymherodraeth Nebuchodonosor yn cael ei chyffelybu i bren mawr a chadarn (cymharer Ezeciel xvii. 22-29 a xxxi. 3-9).

34.—Gan i broffeswyr Cristionogaeth gamgymeryd ambell ddameg fel alegori, mae yn debygol eu bod yn credu fod Iesu wedi egluro pob peth o'r neilldu i'w ddysgyblion. Ond mae yn ddigon naturiol i ni gredu fod Iesu wedi cael allan fod siarad trwy ddamegion y modd mwyaf effeithiol i anerch y torfeydd, a'i fod yn egluro yn llawnach i'w ddysgyblion y gwirioneddau pwysig oedd wedi dderbyn oddiwrth Dduw.

GOFYNIADAU.

1. Adroddwch y Testyn Euraidd. 2. Nodwch dri o bethau pwysig yn y Wers. 3. Gwahaniaethwch rhwng dameg ac alegori. 4. Beth yw eich drychfeddwl am holl-bresenoldeb Duw? 5. Sut cysonwch y syniad yma â thyfiant "Teyrnas Dduw"? 6. A oedd yna ddysgwyliad yn nghalon yr Iuddew am ddyfodiad Teyrnas Dduw? 7. Nodwch y dull yn mha un y dysgwylid i'r "Deyrnas" ddyfod. 8. A oedd yna rywun wedi proffwydo am dani? 9. Beth oedd syniad Ioan Fedyddiwr am Deyrnas Dduw? 10. Beth oedd syniad Iesu am Deyrnas Dduw? 11. A yw y syniad yma wedi ei sylweddoli ar y ddaear? 12. A oes yna wahaniaeth rhwng "Teyrnas Dduw" a "Theyrnas Nefoedd?" 13. Nodwch yr hyn a wyddoch am yr hedyn mwstard. 14. A oedd y llysieuyn yn un mawr? 15. A ydyw y gyffelybiaeth yn wreiddiol i'r Iesu? 16. Nodwch gymhariaethau tebyg o Daniel ac Ezeciel. 17. Paham y darfu i Iesu egluro pob peth o'r neilldu i'w ddysgyblion?

J. T.

MEDI 19EG, 1897.

GWERS XXXV.—IESU YN GOSTEGU'R YSTORM.—Marc iv. 35-41; (cymharer Matt. viii. 23-27; Luc viii. 22-25).

Y TESTYN EURAIDD:—"*Canys rhoddais esiampl i chwi, fel y gwnelech chwithau megys y gwnaethum i chwi.*"—Ioan xiii. 15.

MAE dipyn yn anhawdd yn y dyddiau hyn i gymeryd yr hanes hwn yn llythyrenol. Pan mae Iesu yn iachau y rhai sydd wedi eu meddianu gan gythreuliaid, ac yn dyoddef oddiwrth glefydau

ereill heblaw hyny, mae ysbryd yn gweithredu ar ysbryd, ac mae'n eithaf credadwy fod llawer o'r pethau rhyfedd a gofnodir yn yr Efengylau yn wir. Ond yma, fel wrth droi y dwfr yn win yn Cana Galilea, ac wrth borthi pum' mil â phum' torth a dau bysgodyn, desgrifir Iesu fel yn ymyru â deddfau natur difywyd, ac yn ngwyneb anghyfnewidioldeb y deddfau yma, mae credu yr hanes yn ormod o dreth ar ein ffydd ni. Ni wyddai pobl yn amser Iesu ddim am y ffaith nas gellir dinystrio mater nac ychwanegu ato, a bod pob *energy* yn y bydysawd yn cael ei gadw yn ddyogel *(conservation of energy)*. Felly, hawdd iddynt hwy oedd tybied y gallai un fel Iesu, oedd yn cyflawni pethau rhyfedd fel iachau clefydau, gyflawni pethau rhyfeddach fyth yn nhiriogaeth natur ddifywyd. Mae'n eithaf posibl fod amgylchiadau yr ystorm yma ar Fôr Galilea wedi cymeryd lle yn lled agos fel ag y desgrifir hwy, gyda'r eithriad bwysig fod y tawelwch wedi dyfod yn naturiol, ac nid mewn canlyniad i orchymyn yr Iesu. Fel y dywed teithwyr sydd wedi cynefino eu hunain â nodweddion Môr Galilea, cyfyd ystormydd yno yn ddisymwth, a thawelant mor ddisymwth a hyny. Tuedd y dysgyblion gynt, fel mwyafrif Ei ddysgyblion trwy yr holl oesau, yn eu hedmygedd ohono, oedd Ei ddyrchafu a'i ogoneddu â phriodoleddau Dwyfol, gyda r canlyniad fod y byd Cristionogol, gydag ambell i eithriad yma ac acw, yn edrych i fyny ato erbyn hyn fel y Duw-ddyn, yr ail berson yn y Drindod, yn cyfranogi o'r gogoniant a delir mewn miloedd o demlau i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glan.

Adnod 35.—*Y dwthwn hwnw.* Y dydd hwnw. *Wedi ei hwyrhau hi.* Tebyg mai yn ddiweddar yn y prydnawn oedd, canys er yr oedi achoswyd gan yr ystorm, cafodd Iesu, ar ei laniad feichiad yn bugeilio moch, yr hyn awgryma y tebygolrwydd ei bod hi eto'n ddydd. Cyfrifid yn mhlith yr Iuddewon ddau hwyr. Y cyntaf a ddechreuai gyda gogwyddiad yr haul i'r gorllewin; felly 3 o'r gloch oedd awr yr aberth hwyrol. Dechreuai yr olaf o'r ddau gyda machludiad yr haul. Y cyntaf o'r ddau y cyfeirir ato yma. Ceid hefyd ddosraniad tebyg yn mhlith y Groegiaid. *I'r tu draw*, hyny yw, o Capernaum i wlad y Gadareniaid, y tu draw i Fôr Galilea, er mwyn llonyddwch oddiwrth y byd a'i ddwndwr (Matt. viii. 18.)

36.—*Fel yr oedd*—heb unrhyw barotoadau neillduol. *Llong.* Cwch pysgota bychan, llai o gryn dipyn na llongau cyffredin ein dyddiau ni. *Llongau ereill.* Efallai yn cynwys rhai o ganlynwyr Iesu.

37.—*Cyfododd tymhestl fawr o wynt.* Cyfateba y dygwyddiad hwn yn hollol i ddesgrifiadau teithwyr presenol o'r tymhestloedd disymwth gyfodant ar Fôr Galilea. Gorwedd y môr hwn rhyw 682 troedfedd islaw y cyfanfor. Oherwydd yr isder hwn poethir yr awyr yn y dyffryn, yr hon a gyfyd mewn canlyniad ac a rydd le i awyr oer amgylchynol i ruthro i mewn, pa un, ar ol pasio trwy y cilfanau cydrhwng y mynyddau, a chwyth yn hwthwm

gryf dros y môr. Ceir ystormydd tebyg ar lynoedd Switzerland. *Tonau a daflasant i'r llong.* Rhuthrai y tònau dros y cwch, a chan ei fod yn llanw yr oedd mewn perygl o suddo.

38.—*Ac yr oedd efe, &c.*—Ar ol llafur a lludded y dydd yr oedd yn hollol esmwyth a thawel, ac ni aflonyddid arno gan gynddeiriogrwydd yr ystorm. *A hwy a'i deffroisant Ef.* "Er y crybwyllir geiriau y deffroad gan y tri Efengylwr, rhyfedd ac ystyrlawn yw na chytunant yn gywir yn eu mynegiad ohonynt. Dywed Matthew: 'Arglwydd, cadw ni: darfu am danom;' Marc: 'Athraw, ai difater genyt ein colli ni?' Luc: 'O Feistr, Feistr, darfu am danom.' Nid gwahaniaeth geiriol yn unig geir yma. Y mae yma hefyd wahaniaeth yn nhôn y tri chyfarchiad. Iaith apeliadol yw'r gyntaf; sarhad *(reproach)* yw'r ail; taerineb yw'r drydedd, wedi ei gynyrchu gan berygl disymwth. Ymddengys i mi yn anmhosibl i gymodi y gwahaniaethau hyn âg athrawiaeth ysbrydoliaeth eiriol. Maent yn hollol yr hyn ddysgwylid oddiwrth lygad-dystion gonest ac annibynol. Rhydd pob un yr agwedd hono o deimlad oedd fwyaf byw yn ei feddwl ei hun."—(Abbot.) Gallwn yma gymhwyso i'r hanes hwn eiriau Dr. Carpenter ar amgylchiad arall: "Oni wyddom i gyd ystyr yr hanes hwn? Ai nid ydym i gyd, rywbryd, mewn profedigaeth neu berygl, wedi gwaeddi 'Arglwydd, cadw ni?' Ai nid ydym i gyd wedi teimlo Llaw Ddwyfol yn ein cynal, ac wedi profi y calondid estyna y teimlad hwn i ni yn cydblethu â'r cerydd, 'O chwi o ychydig ffydd, paham y petrusoch?' Y wers fawr ddysgir yma yw, fod trallod bob amser yn tueddu i'n dwyn i sylweddoli ein hymddibyniaeth ar Rywun uwch na ni ein hunain."

39.—*Ac Efe a gyfododd i fyny.* Oni welir yma ardderchogrwydd a phurdeb cymeriad Iesu. Meddianid ef â thawelwch a hyder yn Nuw, hyd yn nod mewn amgylchiad cythryblus fel hwn. *Ac a geryddodd.* Cymer ei gerydd ffurf gorchymyn yn unig. Gwahaniaetha yr Efengylwyr yn nhrefniad yr hanes, ond yr un yw y cnewullyn gan y tri. Myn y mwyafrif o'r esbonwyr mai yn llythyrenol y dylid cymeryd yr hanes, ond cred Solly ac ereill nad oedd ganddo lywodraeth uniongyrchol ar alluoedd natur allanol. Cymer llawer ef yn ffugyrol, fel yn arwyddo ac yn golygu mordaith dyn dros ddyfroedd cynddeiriog bywyd, lle cyfyd croeswyntoedd yn fynych, lle yr ymddengys ar eu gwyneb dymhestloedd profedigaethau a thrallodion, a lle yr ymosodir ar y teithydd ddydd ar ol dydd gan bechod a'i ganlyniadau.

40.—*Paham, &c.? Pa fodd, &c.?* Matt.: "Paham yr ydych yn ofnus, O chwi o ychydig ffydd?" Luc: "Pa le mae eich ffydd chwi?" Rhed yna ryw linell o ysbryd cerydd drwy y tri gofyniad, oherwydd diffyg ffydd. Nid absenoldeb hollol ohoni (Matt. viii. 26) yn y dysgyblion.

41.—Nid syndod iddynt ofni, gan ofyn, "Pwy yw Hwn?" o dan amgylchiad o'r fath.

Gofyniadau.

1. Adroddwch y Testyn Euraidd. 2. Paham mae yn anhawdd i gredu yr hanes hwn? 3. Paham yn fwy anhawdd nag hanesion am y pethau rhyfedd a gyflawnai Iesu fel iachäwr clefydau? 4. Rhoddwch engreifftiau o bethau ereill anhawdd eu credu yn yr Efengylau. 5. Enwch y ddwy ddeddf yn natur sydd wedi eu darganfod oddiar amser Iesu, a rhoddwch eglurhad ohonynt. 6. Sut y cyfrifwch chwi am yr ystorm yn tawelu? 7. Beth yw un o nodweddion Môr Galilea yn ol tystiolaeth teithwyr? 8. Beth oedd tuedd y dysgyblion cyntefig, a Christionogion yn gyffredin trwy yr oesau? 9. Beth yw canlyniad y duedd hono? 10. Gwahaniaethwch rhwng y ddau hwyr a gyfrifid yn mhlith yr Iuddewon. 11. Lle yr oedd y "tudraw"? 12. Pwy oedd yn debyg yn y llongau ereill? 13. Sut ydych chwi yn cyfrif am ystormydd disymwth Môr Galilea? 14. Sut yr ydych chwi yn cyfrif am fod Iesu yn cysgu ar yr adeg yma? 15. Sut mae y tri Efengylwr yn gwahaniaethu gyda golwg ar ffurf-eiriau y deffroad? 16. A oes yna wahaniaeth heblaw un geiriol? 17. Beth yw'r wers a ddysgir yn adnodau 38 a 39? 18. Sut mae cymeriad Iesu yn dyfod i'r golwg yn yr adnodau hyn? 19. Rhoddwch yr eglurhad ffugyrol o'r hanes hwn. 20. Beth ydyw'r ystorm, ac am beth mae Crist yn sefyll?

Myfyriwr.

JOHN ISHMAEL JONES.

VI.

TAIR neu bedair milldir i lawr yr afon yr oedd ogof—math o ogof Mammoth ar raddfa fechan. Yr oedd yn llawn llwybrau, a chelloedd, a rhyfeddodau. Gan ei bod, ynddi ei hunan, yn le mor ddyddorol, heblaw y rhodfeydd cysgodol ar hyd glàn yr afon, yr oedd yn fan cymeradwy gan bleserwyr i dreulio diwrnod ynddo. I'r ogof, gan hyny, yr oedd y bobl ieuainc wedi cytuno i fyned, ac, wrth gwrs, gwahoddasant y gweinidog gyda hwynt. Cytunasant âg agerlong fechan i gario'r parti. Yr oedd Mr. Jones wedi darganfod fod Miss Margaret yn or-hoff o farchogaeth, a chan ei bod yn gallu marchogaeth yn dda, penderfynodd i gynyg iddi y pleser o fyned ar geffyl. Meddyliodd y gwnai wrthod ddyfod gydag ef ei hunan; gwahoddodd ei chwaer a chyfaill arall i wneyd i fyny y parti marchogol.

Cychwynasant awr o flaen yr agerlong, a chymerasant ffordd gwmpasog a dyeithr; penderfynasant i fwynhau eu hunain, ac i fod ger yr ogof i groesawu y parti ar y cwch pan y gwnaent lanio.

Yr oedd yn daith wyllt a phleserus. Dywedai Mr. Jones yn fynych na wyddai am ddim fel y teimlad treiddgar a llamus pan ar gefn ceffyl o natur uchel, ond wedi ei ddysgu yn dda. Yr unig beth oedd yn ei adgofio yn debyg iddo oedd y teimlad o fawredd pan y byddai yn pregethu ar ei oreu, heb un ddesc rhyngddo a'i wrandawyr; a phan y gafaelai yn ei ddwylaw fel awenau, llinynau anweledig cydymdeimlad a redai i bob calon, ac a roddai iddo allu i ddylanwadu, i gynhyrfu, i suo, i beri i wenu neu i wylo wrth ei ewyllys—y gallu nad oes ond yr areithiwr yn gwybod dim am dano. Felly, yn mlaen y carlament, drwy y pant a thros y bryn. Ymgomient yn llawen wrth gerdded i fyny y rhiwiau, neu pan arosent i roddi anadl i'w ceffylau yn y cysgod. Yr oedd yn bictiwr prydferth o iechyd, a nerth, a harddwch; eu llawenydd ysgafn a hapus yn treiddio trwy awel bêr y boreu. Cawsent eu synu yn barhaus gan y golygfeydd prydferth a rhamantus, yn nghanol y rhai y carent aros a mwynhau eu hunain. Ond pan y cyrhaeddasant y man uchelaf ar eu taith, agorodd y fath olygfa o'u blaen nes y parodd i bob un i aros. Am ddeng milldir yr oedd yr afon yn ymddolenu, yn dysgleirio, ac yn pelydru yn eu golwg. Yr oedd yn afon arianaidd, wedi ei haddurno âg ynysoedd gwyrddion. Ychydig filldiroedd i fyny yr afon ymdorchai mŵg agerlong, yn rhy bell i fod yn ddim ond rhan ddystaw o'r pictiwr. Yr ochr arall i'r afon yr oedd dolydd gwyrddlas, ffermdai, pentrefydd, a llafurwyr diwyd, yn prysur ddilyn eu goruchwylion.

"Ni welwyd dim yn fwy gogoneddus na hyn er yr amser pan safodd Moses ar ben Pisgah," dywedai Mr. Jones.

"Nid wyf yn gwel'd sut y gall y nefoedd fod yn fwy prydferth," meddai Miss Edwards.

Yr oeddent yn rhy lawn o ryfeddodau prydferth yr olygfa i allu siarad llawer. Fel yr eisteddent ac yr edrychent, clywent swn yr agerlong fechan yn y pellder, a gorfu iddynt frysio er bod yn barod i'w chroesawu. Bloeddiai y teithwyr allan, ac atebid hwynt o'r làn, ac yn mhen ychydig fynydau yr oeddent oll ar y tir, yma ac acw dan y coedydd, yn barod i fyned i mewn i'r ogof. Gyda thameidiau o ganwyllau yn lle ffaglau, a darnau o newyddiadur yn ganwyllarnau, cerddasent y llwybrau culion i mewn, pasient drwy ystafelloedd uchel, a gwrandawent ar y dwfr anweledig yn syrthio i lawr hyd lwvbrau tywyll y nos dragywyddol. Pan wedi blino yn yr ogof, difyrent eu hunain drwy chwareu, a rhodiana. a chanu, ac yna cymerasant o'r bwyd a'r danteithion oeddent wedi eu taenu o dan y coed tewfrig; ac felly yr aeth y dydd yn mlaen. Pwy erioed a welodd ddydd yn hir pan yn cael ei dreulio gan chwerthin, a chanu, a chwareu, ac ymgom bechgyn a merched ieuainc, gyda charped gwyrdd o dan eu traed, a haul dysglaer a nefoedd las uwch eu penau.

O'r diwedd cychwynodd y parti i fyned adref, a chyfrwyodd y marchogwyr eu ceffylau. Yn lle dychwelyd ar hyd yr un ffordd ag y daethant, er mwyn newid, penderfynwyd myned yn ol ar hyd

glàn yr afon, ac ymrysonent â'r agerlong am y cyntaf i fod adref. Am amser cadwent ochr yn ochr fel pe bai, ond rhedai y ceffylau yn gyflymach, ac yn fuan gadawodd Mr. Jones a Miss Edwards eu cymdeithion yn mhell ar ol. Chwibanai y gwynt fel yr elent drwyddo, fel y gwna drwy hwyliau llong ar y cefnfor. Ond cyhyd ag oedd y ceffylau yn mwynhau eu hunain, nid oeddent yn hidio pa mor gyflym yr elent. Ond yn sydyn, pan yn myned drwy dro byr yn y ffordd, wrth basio coeden oedd wedi ei thori, dychrynodd ceffyl Miss Edwards; ond mor fedrus o naturiol y marchogai, fel nad oedd yn ymddangos mewn un perygl o gael ei thaflu i lawr. Ond yr oedd y dychryn wedi cynddeiriogi y ceffyl, a rhedai fel nad allai Mr. Jones ddim o'i ddilyn. Treiodd ei ddal, ond yn ofer, ac mewn tro arall gwelodd Ishmael, er ei ddychryn, fod un o'r awenau wedi tori, ac nis gallai mwy ei lywodraethu. Bu yr hyn a welodd nesaf bron ei barlysu. Yr oedd y ceffyl allan o'r golwg; ac nid oedd yr holl fydysawd iddo ef yn awr ond y gwyneb gwelw a llonydd ger llaw y ffordd.

"O, Dduw!" llefai allan, "y mae yn farw, a fi a'i lladdodd hi." Yr oedd ei ben yn chwildroi, ac ymddangosai goleuni'r nefoedd fel wedi myned allan mewn nos ofnadwy; ni ddisgynodd, ond taflodd ei hun oddiar ei geffyl. Ni wyddai braidd beth oedd yn wneyd, nes iddo gael ei hun ychydig bellder o'r fan yn eistedd ar y borfa wrth ffynon fechan a redai allan o ochr y bryn, gyda'i phen ar ei lin, ac yn golchi ei gwyneb â'r dwfr oer. Awr yn ol, meddyliai ei bod yn rhyfyg *i* freuddwydio am dani fel yn eiddo iddo; ond yn awr llamai ei galon i fyny, a hawliai hi. Teimlai ei bod hi yn eiddo iddo, ac fod rhyw allu ofnadwy yn ei chymeryd ymaith. A oedd hi yn farw? Yr oedd clwyf ysgafn ar ei thalcen. Nid ymddangosai ei bod yn anadlu. Galwai arni, "Madge! Madge!" gydag anwylder angerddol, oherwydd y mae cariad a thristwch yn gwneyd gwawd o ffurfioldeb, "O na allwn farw drosoch chwi neu gyda chwi."

Cauai y coed ar làn yr afon yr olygfa yn y fan hon, ac ni welodd y parti ar y bwrdd y ddamwain. Gosododd ei phen yn ofalus ar ei got, yr hon a dynodd ymaith yn obenydd iddi, a rhuthrai yn ol er cael gweled a oedd ei chwaer a'i chyfaill yn dyfod. Ond nid oeddent yn y golwg. Rhedai yn ol drachefn, a chodai ei phen ar ei lin, a chusanai ei thalcen yn serchus a thyner, a galwai arni yn barhaus, er gwel'd a wnai ei lais ei dihuno.

Llanwodd ei lygaid o ddagrau llawenydd, pan y symudodd ychydig, a *dy*angodd rhyw haner ochenaid dros ei gwefusau. Agorodd ei *ll*ygaid am ychydig, yna cauodd hwynt drachefn. Symudai ei gwefusau fel pe baent am siarad, ond yr oeddent yn ddystaw. O'r diwedd daeth murmur gwan dros ei gwefusau, ac ymdrechai siarad mewn geiriau a brawddegau toredig:—

"Mr. Jones! Ishmael! Achubwch fi!"

"Gwnaf, Madge! anwyl Madge! Byddaf farw er eich hachub. A ydych yn fy nghlywed?"

Yr oedd yn llonydd eto. Dechreuodd y gwaed esgyn yn awr i'w gwyneb; ac fel yr oedd yn ei gwylio, dywedai ei feddwl yn uchel:—

"O, y fath wyneb cariadus!"

Bron y pryd yma dihunodd ychydig, ac haner-ddeallodd y geiriau diweddaf, a dywedodd megys mewn breuddwyd:—

"Pwy ddywedodd am gariad?"

Yna gwridodd yn ddwfn pan y deallodd yn mha le yr oedd, a beth ddywedodd.

Fel yr oedd hi yn dadebru o'i llewyg, yr oedd yr hen ofn yn d'od yn ol; ymddangosai fel yn llithro o'i ddwylaw, ac yr oedd y gagendor rhyngddynt eto.

"Diolch i Dduw, Miss Edwards, ei bod cystal ag y mae," meddai.

Ar hyn daeth ei chwaer a'i chyfaill i fyny. Ychydig eiriau eglurodd y cwbl. Benthyciwyd cerbyd o ffermdy cyfagos, a thra y pwysai ar ei chwaer, gyrwyd hwynt adref gan Mr. Jones, tra y daeth ei gydymaith â'r tri ceffyl, a chafwyd y pedwerydd yn yr ystabl gartref.

Pan gyrhaeddwyd adref gorfu i Mr. Jones i gario Miss Margaret yn ei freichiau i'w hystafell. Yna brysiodd am feddyg, a phan ddeallodd nad oedd dim yn waeth nag ofn, yr hyn a'i cyfyngai i'w hystafell am ychydig ddiwrnodau, ymadawodd, gan feio llawer arno ei hun am y codwm, ac yn dymuno am noswaith o gwsg esmwyth.

(I'w barhau.)

CYMANFA GANU MORGANWG.

MAE pob sefydliad gwiwlan, pob meddylddrych aruchel, pob symudiad ardderchog yn hanes dynoliaeth wedi rhodio glenydd tywyll anobaith, wedi cyfarfod âg anhawsderau dybryd, ac wedi morio drwy dònau crychiog cyn iddynt gyrhaedd gwir werth a dyfod yn ysbrydoliaeth yn mywydau dynion a benywod. Mae yr hyn sydd wedi profi ei hun yn symbyliad er daioni yn y byd presenol wedi gwneuthur ei ymddangosiad yn nghanol ystormydd cythryblus, a thrwy ddysgyblaeth lem wedi dyfod yn ddigon nerthol i fod yn allu i hyrwyddo blaen-fynediad yr hil ddynol. Nid rhyfedd ein bod yn gallu olrhain gweithrediad y ddeddf hon yn y byd bychan o Ganiadaeth y Cysegr yn Morganwg. Mewn gofid a phryder y cychwynodd ein Cymanfa eleni. Rhwystrau ar ol rhwystrau a gyfodent o gyfeiriadau pur annysgwyliadwy, yn gymaint felly nes darfu i rai pleidiau oeddym wedi arfer ymddibynu ar eu ffyddlondeb wrthgilio o'r gwersyll. Ond daeth y waedd fod pob ymdrech ddewr yn cael ei choroni â llwyddiant, ac wele y rhengoedd toredig yn cael eu

huno, ac yn y blaen yr aed, gan glirio pob rhwystr o'r neilldu, a chyda phenderfyniad dewr yn ffynu yn ein calonau i wneyd ein goreu. Haeddasom lwyddiant, a chafwyd un o'r cymanfaoedd canu goreu yn hanes ein Hundeb yn Nghastellnedd, ar y Llun cyntaf yn Mehefin. Trwy garedigrwydd cynulleidfa Annibynol y Gnoll, yr oedd eu capel prydferth at ein gwasanaeth. Dechreuwyd y cyfarfod prydnawnol gan y Parch. T. J. Jenkins, a chadeiriwyd gan Mr. Plummer, Y.H., Glyncorwg, yn ddeheuig iawn. Yna galwyd yr arweinydd apwyntiedig, Mr. David Evans, Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, at ei waith, yr hwn, trwy ei fedrusrwydd a'i frwdfrydedd, a brofodd ei hun yn deilwng o'r anrhydedd a osodwyd arno gan y Pwyllgor Cyffredinol. Yr oedd lleisiau y côr yn hynod o dyner a swynol; yr oedd y cydbwys yn dda, ac yr oedd yn meddiant y cantorion a'r arweinydd, y gallu ardderchog o osod allan syniadau yr awdwyr mewn modd effeithiol; a theimlad pob cerddor yn bresenol oedd fod enaid yn y canu, gan fod ysbryd y peth byw, nas gellir ei ddesgrifio, yn treiddio trwy galon pob gwrandawr. Siaradwyd yn y cyfarfod hwn gan Mri. J. Morgan, Clydach Vale; Hopkins a Davies, Gellionen; N. Williams, a'r Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar. Darllenwyd yr emynau gan y Parchn. T. J. Jenkins a Jenkyn Thomas, a therfynwyd trwy weddi gan y Parch. D. J. Williams, Merthyr. Cafwyd tê gyda'n gilydd yn y Gwyn Hall, ac mae diolchgarwch yn ddyledus i bawb fu yn cynorthwyo er ei wneyd yn llwyddiant. Yn yr hwyr dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. W. J. Phillips, Nottais, a chadeiriwyd yn hynod fedrus gan Mr. L. C. Thomas, cyfreithiwr, Castellnedd, mab Mr. T. Thomas, Merthyr. Darllenwyd yr emynau gan y Parchn. R. J. Jones a D. J. Williams. Siaradwyd yn bwrpasol gan Mr. Henry Morgan, Gellionen; Mr. Jenkins, Clydach Vale; ac ereill, a therfynwyd trwy weddi gan y Parch. J. E. Jenkins, Dowlais. Yr organydd am y dydd oedd Mr. Morgan Morgan, Hen-Dy-Cwrdd, yr hwn a gyfeiliodd gyda sylw manwl i'r amser a'r ysbryd. Y tônau a berodd gyneu y tân ysbrydol yn y gynulleidfa oedd "Thornbury," gyda'r emyn "Wyt ti brudd," &c., allan o "Emynau ac Odlau" R. J. J.—y llinell gyntaf yn cael ei chanu fel unawd gan ferch ieuanc o Trebanos yn hynod doddedig; "St. Flock:" "Dies Iræ," ar yr emyn gyfansoddwyd i'r pwrpas gan y Parch. R. J. Jones; a "Pentecost," yn nghyda'r emyn "O arwain fi." Yr oedd y canu ar y tônau uchod wedi cyrhaedd graddau o berffeithrwydd anhawdd ei ragori yn nghaniadaeth y cysegr; a datganodd un cerddor ieuanc ei farn drwy ddyweyd ei fod yn cael ei godi o'r anianol i'r ysbrydol wrth eu clywed, ac yn gallu drychfeddwl yn egwan beth feddylid wrth y syniad fod miwsig y bydysawd yn gydgordiad perffaith. Bydded i ysbryd cariadus drwytho calonau ein cantorion a'n heglwysi yn ystod y misoedd dyfodol, fel y byddo i'r gymanfa nesaf ragori ar yr olaf, os yn bosibl.

Aberdar. J. Thomas.

CYMDEITHASAU DIWYLLIADOL.

(Pigion o Anerchiad a draddodwyd ar achlysur agoriad Cymdeithas Ddiwylliadol yn Llundain, Ionawr 12fed, 1892).

GAN D. DELTA EVANS, LLUNDAIN.

"HIGHER, STILL HIGHER, EVER UPWARD!"

Y MAE yn debyg nad oes un sefydliad mewn bodolaeth yn cyfranu yn helaethach tuag at addysgu ac hyfforddi ein pobl ieuainc na'r cymdeithasau llenyddol a diwylliadol yn ngwahanol drefydd Lloegr a Chymru. Rhydd y cymdeithasau hyn freintiau a chyfleusderau anarferol i'r aelodau i eangu eu gwybodaeth, a gwneyd eu hunain yn ddefnyddiol; ac y mae yn ddyledswydd ddiamheuol arnom ninau i wneyd pob peth yn ein gallu i ddiwyllio ein hunain, i ddysgu ein hunain, ac i adnabod ein hunain; oblegid wrth ddiwyllio ein hunain yr ydym yn addysgu ereill, ac wrth hyfforddi ein hunain y gallwn gyfarwyddo ein gilydd; ac os nad ydym yn adnabod ac yn deall ein hunain, pa fodd y gallwn ni ddeall ac adnabod ereill yr ydym yn barhaus yn dyfod i gyffyrddiad â hwynt yn ein gwahanol alwedigaethau?

* * * * * *

Un o amcanion penaf y gymdeithas hon, gan hyny, a fydd ein cael ni i ddeall ein hunain ac i ddeall ein gilydd, i ddiwyllio ein hunain ac i addysgu ein gilydd. Bydded i ninau, un ac oll, fel creaduriaid rhesymol a chyfrifol, ac fel aelodau o gymdeithas y mae iddi amcanion mor wir deilwng ac aruchel, ymaflyd â'n holl egni mewn pob cyfle a estynir i ni i ddyrchafu cyflwr y naill a'r llall—i gynorthwyo a goleuo ein gilydd. Credir fod nifer luosog o Gymry, wedi ei donio gan Natur â chyneddfau godidog a meddyliau galluog, yn anghofio mai eu dyledswydd ydyw defnyddio y cyfryw offerynau er mwyn eu cydgreaduriaid. Y mae y rhai hyn yn rhwymo eu talentau mewn cadachau, ac yn eu cuddio o'r golwg yn y ddaear; os ydyw eu canwyll wedi ei goleuo, y maent yn ei dodi o dan lestr, fel nas gall neb arall

dderbyn llewyrch o'u goleuni hwynt. Beth a fuasai wedi dyfod o'n hen wlad anwyl ni erbyn heddyw pe na buasai rhai o'n cyndadau wedi diwyllio eu hunain mewn trefn i addysgu eu cydddynion, i'w hyfforddi a'u cyfarwyddo hwynt, ac i'w cyfodi o'u cyflwr isel o anwybodaeth a thywyllwch meddyliol? Gadewch i ni am foment gymeryd adenydd chwimwth dychymyg, ac ehedeg mewn amrantiad i lawr i fröydd a dyffrynoedd Cymru, a sylwi ar y cyfnewidiad, y gwelliant, a'r cynydd sydd wedi cymeryd lle yn ystod y ganrif ddiweddaf yn ngwlad ein genedigaeth. Gwelir yn fynych arwyddion byw o'r cynydd hwn yn nhreiddgarwch dealltwriaeth ac ëangder gwybodaeth aml i hen dad duwiolfrydig, ac yn hoenusrwydd a bywiogrwydd meddyliol aml i hen fam ddefosiynol, y rhai a geir heddyw yn trigianu mewn dedwyddwch a thawelwch mewn bwthynod bychain tô gwellt ar fronau bryniau Cymru. Yn wir, y mae ffrwyth toreithiog llafur a diwydrwydd yr hen gewri cedyrn Cymreig i'w ganfod ar hyd a lled ein gwlad. Meddyliwch, er engraifft, am wladgarwch a gwroldeb diysgog Caradoc a'i fyddin; meddyliwch am benderfynolrwydd a dyfalbarhad diflino Rowland Hill a Charles o'r Bala; am awen beraidd Williams, Pantycelyn, a barddoniaeth goeth ac athrylithgar Dafydd Morganwg, Eben Fardd, a Ieuan Glan Geirionydd; am hyawdledd hylithr John Elias o Fon, a Williams o'r Wern; am arabedd a digrifwch bythgofiadwy Christmas Evans a Twm o'r Nant; am symlrwydd dwysbigog pregethau Richard Owen, y diwygiwr, a Jones, Llanfair; am gof anffaeledig ac ieithyddiaeth ffraeth Dic Aberdaron; ac am saernïaeth celfyddydgar yr anfarwol Inigo Jones. Dyma i ni res o Gymry talentog ac athrylithgar, i ddiwylliant y rhai yr ydym yn ddyledus am ran helaeth o farddoniaeth a llenyddiaeth ein hiaith. Y mae y dynion hyn, yn eu hyni meddyliol a'u gweithgarwch diflino, yn deilwng o gael eu hefelychu gan bob un ohonom. Y mae yn werth i ni geisio eu dilyn hwynt—nid yn eu credöau, eu hopiniynau, a'u daliadau crefyddol, ond yn eu gwerth a'u defnyddioldeb fel dinasyddion, ac yn mhuredd ac uniondeb eu cymeriadau. Y mae amser dyn mor fyr ar y ddaear nad oes ganddo ddim i'w wastraffu mewn dadleuon brwd a diystyr yn nghylch pethau nas gall wybod dim am danynt. Ac y mae dyn yn greadur mor ardderchog a galluog; y mae cymaint o fwynhad a dedwyddwch yn ei gyrhaedd ef, nes y mae yn golled anhraethol iddo os ydyw yn esgeuluso diwyllio a dadblygu ei gyneddfau, a gwneyd yr iawn ddefnydd o'i alluoedd.

* * * * * *

Ond y mae dyn er's canrifoedd o oesoedd maith wedi ei adael mewn tywyllwch ac anwybodaeth; a phrin y mae efe eto wedi dyfod i sylweddoli ei fodolaeth fel creadur galluog. Sefydlir y gymdeithas hon, ynte, i'r amcan o amlhau manteision a breintiau yr aelodau, i'w cynorthwyo i ddiwyllio eu hunain a gwellhau y naill a'r llall. Y mae maes eu llafur yn eang; y mae

y gwaith yn un pwysig a gogoneddus, ac yn sicr o gael ei goroni â llwyddiant.

Gan hyny, gyfeillion llenyddgar a llon,
'Mwrolwn ar unwaith i weithio
Er cyrhaedd amcanion yr araeth fach hon,
Gan ofyn i'r Nef ein bendithio.

MAE'R BLWYDDI'N MYN'D.

Llinellau a gyfansoddwyd ar ol gweled claddu amryw o'm cydgyfoedion.

MAE'R blwyddi'n myn'd o flwydd i flwydd,
Yn chwim yr 'hedant hwy ;
Ond nid rhy chwim i weini'r swydd
Y claddu yn mhob plwy' :
Fe ddylem ro'i ystyriaeth ddwys
A y'm yn gwneyd ein rhan ;
Fe fyddwn ninau dan y gŵys
Mewn mynwent yn y man.

Mae'r blwyddi'n myn'd, yn gyflym änt,
Byth ni ddychwelant mwy ;
Ysgubo i'r mynwentydd wnant
Rhyw filoedd gyda hwy :
Mae'r flwyddyn ä a ni i dd'od,
Nis gwyddom pa mor glau,
Ond gwyddom yn rhy dda ei bod
Bob eiliad yn neshau.

Mae'r blwyddi'n myn'd, yn myn'd o hyd,
Gan roddi yn y bedd
Y baban bychan gwan o'r cryd,
A'r hen-ddyn rhychiog wedd :
Y cryf a'r gwan, y gwych a'r gwael,
Y mab a'r ferch deg bryd ;
Rhyw farw ! marw ! r'ym yn gael
Yn hanes blwyddi'r byd.

Mae'r blwyddi'n myn'd, a ninau sydd
Yn myned gyda hwy ;
Ond na wnaed hyny'n bronau'n brudd,
Na wnaed i'r galon glwy' :
Mae eto Nefol wlad o hedd
I'r Cristion pur ei fron ;
Rhyw borth yw'r byd tuyma i'r bedd,
Cyn 'r elo fewn i hon.

Llanybyther. D. O. JENKINS.

LLYTHYR J. J. T

Mr. Gol,—Credaf fod gair yn ddyledus oddiwrthyf fi fel Ysgrifenydd y Gymdeithas Undodaidd Gymreig ar lythyr J.J.T. yn y rhifyn diweddaf. Pwyllgor cyffredinol, yn cael ei wneyd i fyny o luaws o weinidogion a chynrychiolwyr ein heglwysi, a gyfarfyddodd yn Rhydygwin yn Ngorphenaf, 1896, oedd yn gyfrifol am apwyntiad y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, i bregethu y bregeth yn Aberdar. Pwyllgor o'r un natur a gyfarfyddodd yn Aberdar eleni ddarfu enwi y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, fel y pregethwr yn nghyfarfod Llanbedr y flwyddyn nesaf. Gadawaf i ddarllenwyr Yr Ymofynydd i benderfynu pa un ai barn unfrydol pwyllgorau o'r fath, neu farn unigol J.J.T., sydd yn debyg o fod yn foddhaol a mwyaf teilwng o ymddiried ar y cwestiwn o gymhwysderau pregethwyr. Mae'n brofedigaeth i mi, gyda'r teimladau sydd yn fy meddiauu yn ngwyneb sylwadau J.J.T., i ysgrifenu rhagor, ond gadawaf y mater ar hyna.

Brynhyfryd, Llandysul. W. James.

MANION AC HANESION.

Dowlais.—Deallwn fod y Parch. J. E. Jenkins, gweindog parchus yr eglwys Undodaidd yn y lle hwn, ar fedr agor ysgol ddyddiol yma. Dymunwn iddo lwyddiant mawr yn ei anturiaeth newydd.

Cefn Coed.—Ar y 26ain o Orphenaf ymunodd Ysgolion Sul Hen-Dy-Cwrdd a Tabor (A.), Cefn Coed, yn nghydag Ysgol Sul Dowlais, i gynal eu *Pic-nic* blynyddol yn yr un fan, sef ar adfeilion hen Gastell y Fenni. Ni allesid byth cael gwell man, yn llawn prydferthion, ac yn hynod gyfleus i blant, ac ereill hefyd, i ymddifyru. Bygythiol oedd y tywydd yn y boreu, ond cyn i ni gyrhaedd tref y Fenni yr oedd yr awyr wedi clirio, a chawsom hin desog. Barn pawb wrth ddychwelyd adref oedd, mai hwn oedd y lle goreu yn y byd i gael diwrnod o fwynhad.—*A. B.*

Gwersi yr Ysgol Sul.—Fe genfydd y darllenydd fod y gwersi yn y rhifyn hwn gan dri ysgrifenydd newydd.

PRIODASAU.

Mehefin 19eg, yn Gellionen, gan y Parch. T. J. Jenkins, yn mhresenoldeb y Cofrestrydd, Hopkin Jones, Fferm yr Henrhyd, âg Ann Morgan, Twll-y-gwyddil, merch un o hen ffyddloniaid yr achos yn ei ddydd.

Mehefin 22ain, yn Gellionen, o flaen y ddau a enwyd, Evan Daniel Davies â Mary Hannah Bowen, y ddau o Gellionen.

Peidiwch chwi a meddwl fod
Diwedd caru wedi d'od ;
Dechreu caru ydych chwi ;
Cym'rwch gynghor genyf fi,
Pasiwch heibio'r naill a'r llall
Mewn diffygion ; byddwch gall.

Awst 10fed, yn Eglwys Llanerchaeron, gan y Parch. Rees Williams, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Davies, Ciliau, Mr. Lewis Evans, Tynant, â Miss Hannah Jane Jones, Pontfaen. Hir oes ddedwydd i'r ddau.

MARWGOFION.

MEHEFIN 26ain, yn 34 mlwydd oed, Eleanor Parry, priod David Parry, Clettwr Cottage, Pontshan, ar ol hir gystudd, o'r darfodedigaeth, gan adael priod a phedwar o blant bychain i alaru eu colled ar ei hol. Bu yn fam dyner a gofalus, yn wraig ffyddlon ac ymdrechgar, yn gymydoges hawddgar a charedig. a theimlir hiraeth cyffredinol ar ei hol, Prydnawn dydd Mercher canlynol daeth tyrfa luosog yn nghyd i hebrwng yr hyn oedd farwol ohoni i gladdfa Pantdefaid. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog, a phregethwyd gan y Parch. T. Thomas, Y.H., Green Park.

YN blygeiniol foreu Iau, y 15fed o Orphenaf, yn dra sydyn, Evan Jones, saer, Gelligron, yn yr oedran teg o 77 mlwydd, gan adael gweddw oedranus, dau fab, a dwy ferch, heblaw nifer luosog o ŵyrion a pherthynasau pellach, i ddwys alaru ar ei ol. Y dydd Sadwrn blaenorol, yr oedd wrth ei alwedigaeth yn brysur hyd yr hwyr, pryd y cafwyd ef yn gorwedd yn ei weithdy wedi ei daro yn glaf, a chludwyd ef i'r tŷ ac i'w wely. Gwaethygu yn raddol a wnaeth, a chafodd gystudd caled i ddioddef y rhan olaf o'i oes. Yr oedd ei ymadawiad yn beth hollol annysgwyliadwy i'w gyfeillion a'i berthynasau, er fod yr arwyddion yn dangos er's tro fod y babell ddaearol yn cyflym ymddatod. Dyn diwyd a gweithgar iawn oedd Evan Jones hyd y diwedd, ac un a fawr berchid gan ei gymydogion a'i holl gydnabod. Bu yn briod hawddgar ac yn dad tirion a gofalus. Unplygrwydd a gonestrwydd oeddynt nodweddion arbenig yn ei gymeriad da. Egwyddorol ydoedd yn ei ymwneyd â phawb; nid oedd yn feddianol ar ddau wyneb; a pheth dyeithr iddo ef oedd y rhan wenieithus a rhagrithiol. Perthynai iddo rinweddau lawer, gwerth eu hefelychu, ac amlygai yn ei weithredoedd hanfodion y grefydd a broffesai. Yr oedd yn aelod selog o eglwys Pantydefaid er's blynyddau lawer, a mynychai yr addoliad yn gyson; eithriad oedd gweled ei le yn wâg o dan y pwlpud. Bu yn gyfaill ffyddlon i'w hen weinidog, T. Thomas, Ysw., Y.H., Green Park, yn ystod ei fywyd. Y dydd Llun canlynol i'w farwolaeth, daeth torf anarferol o luosog yn nghyd i dalu iddo y gymwynas olaf, trwy gludo ei weddillion marwol i'w fedd yn mynwent Pantydefaid. Gweinyddwyd yn ei angladd, yn y tŷ cyn cychwyn, gan ei weinidog, y Parch. T. Arthur Thomas; a thrwy orchymyn yr ymadawedig, cyflawnodd T. Thomas, Ysw., Y.H., y gweddill o'r gwasanaeth, a phregethodd yn doddedig iawn. Nerth a gaffo y perthynasau oll i alaru yn gymedrol; ymdaened aden Ragluniaethol Duw drostynt, yn enwedig dros y weddw oedranus ag sydd wedi ei gadael yn ei dyddiau blin. Heddwch i lwch ein hanwyl gyfaill, a theyrnased tawelwch uwchben ei ddystaw fedd.

AWST 10fed, yn 14 mis oed, Catherine Anne, anwyl blentyn David a Hannah Morgans, Moyddynfach, plwyf Llanarth. Claddwyd y Gwener canlynol yn mynwent Capel y Bryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

Huned y baban hoff mewn hedd,
Ac adgyfoded ar Dy wedd.

AWST 7fed, ar ol misoedd o gystudd caled, yn 60 mlwydd oed, David Williams, Heolybont, Llanybyther. Claddwyd ei ran farwol y Mawrth canlynol, yn nghanol arwyddion amlwg o alar cyffredinol, yn mynwent Capelygroes. Cyflawnwyd y gwasanaeth arferol gan y Parch. J. Davies. yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. E. E Jenkins. Gadawodd yr ymadawedig weddw, mab a merch, brodyr a chwiorydd, yn nghyda llu mawr o gyfeillion i alaru yn ddwys ar ei ol. Yr oedd yn un a gerid yn fawr gan y rhai a'i hadwaenai yn dda. "Coffadwriaeth y cyflawn sydd fendigedig."

AWST 7fed, William Davies, crydd, Treherbert, ger Llanbedr, yn 70 mlwydd oed. Cyfarfod â damwain druenus

wnaeth yr ymadawedig yn ngorsaf Llanbedr y dydd blaenorol, trwy i nifer o *drucks* fyned drosto pan yn croesi y llinell. Er mwyn ceisio achub ei fywyd, yr ydym yn deall i'r meddygon dori ymaith un goes a dau o fysedd un law; ond er pob ymdrech, profodd y ddamwain yn angeuol y dydd canlynol. Yr oedd yr ymadawedig yn un o'r rhai mwyaf parod i gymwynas yn y gymydogaeth, ac i roddi help llaw haner nos fel haner dydd, a theimlir colled gyffredinol yn yr ardal ar ei ol. Yr oedd yn aelod o eglwys Brondeifi, a chladdwyd ei weddillion y dydd Mawrth canlynol yn mynwent y capel uchod, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle. Cafodd angladd hynod luosog, ac yr oedd hyn yn tystiolaethu fod iddo barch uchel gan ei gymydogion. Gadawodd nifer o blant, wyrion, a pherthynasau ereill i alaru ar ei ol.

Gorphenaf 29ain, Mr. William James, Cwmneol Farm, Cwmaman, Aberdar, yn 62 mlwydd oed. Y dydd Llun canlynol ymgasglodd tyrfa luosog i hebrwng ei weddillion marwol i Cemetery Aberdar, pan y gweinyddwyd gan y Parchn. R. J. Jones, M.A., J. Hathren Davies, J. J. George, Jenkyn Thomas, a J. Fisher Jones. Ganwyd ein cyfaill ymadawedig yn Tyllwyd, Cwmbach, a hanai o hen deuluoedd Undodaidd parchus yr ardal, a bu fyw yn y lle yma hyd nes iddo symud, ychydig flynyddau yn ol, i ardal Cwmaman. Am amryw flynyddau bu yn aelod yn yr Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar; ond pan ffurfiwyd eglwys Undodaidd yn Nghwmbach, ymunodd ef a'i deulu â'r eglwys yn y lle hwn, a daethant yn aelodau ffyddlawn ohoni. Yr oedd yr ymadawedig wedi mwynhau iechyd da drwy ei oes hyd ddechreu yr haf diweddaf. Y pryd hwnw dechreuodd ymglafychu, ond nid yn beryglus, fel y tybid ar y dechreu; er hyny, gwaethygu yn raddol a wnaeth, ac er pob ymdrech a wnaed gan feddygon ac ereill er ceisio ei adferu, ar y dydd crybwylledig diangodd ei ysbryd at yr Hwn a'i rhoes. Perthynai i'n brawd lawer o nodweddion gwerthfawr. Yr oedd yn meddu cyneddfau meddyliol cryf a bywiog; yr oedd, yn ol y manteision a gafodd, wedi cyrhaedd mesur helaeth o wybodaeth gyffredinol. Yr oedd yn gerddor medrus, a bu yn arwain y canu ac yn chwareu yr harmonium am flynyddau lawer yn nghapel Cwmbach. Parhaodd yn aelod ac yn ddiacon ffyddlawn hyd y diwedd. Yr oedd iddo gymeriad uchel fel dyn cywir mewn pob trafodaeth. Dewisach ganddo bob amser wneyd yn well na gwneyd yn waeth na'i air. Yr oedd wedi bod yn ddyn o arferion diwyd a chynil iawn, yn anfoddlawn iawn i wastraff ac anghymedroldeb gyda dim. Yr oedd o dymher siriol a chalon garedig, ac fe welir llawer o'i eisieu yn y teulu, y gymydogaeth, ac yn y gynulleidfa. Gadawodd i alaru ar ei ol weddw a chwech o blant, heblaw brodyr a chwiorydd, a chylch helaeth o berthynasau a chyfeillion. Na foed i'r weddw a'r plant i alaru "fel rhai heb obaith," ond bydded iddynt oll sugno eu cysur oddiwrth Dad y tadau.

Gwae y rhai a ddywedant am y drwg, Da yw; ac am y da, Drwg yw; gan osod tywyllwch am oleuni, a goleuni am dywyllwch; y rhai a osodant chwerw am felus, a melus am chwerw.

Agorwch y pyrth, fel y dêl y genedl gyfiawn i mewn, yr hon a geidw wirionedd.

Mae y byd
I gyd yn gysegredig, a phob ban
Yn dwyn ei gerub a'i drag'wyddol gainc.—*Islwyn.*

Joseph Williams, Swyddfa'r "Tyst" a'r "enad Hedd," Merthyr Tydfil.